

Yr effeithiolrwydd o therapi chwarae ar blant sy wedi dioddef o gamdriniaeth

Haniaethol

Nodau trawsffiniol y prosiect ymchwil hwn, yw dadansoddi'r effeithiolrwydd o therapi chwarae ar blant sy wedi dioddef o gamdriniaeth. Bydd ymchwil blaenorol yn cael eu dadansoddi a chraffu, i ganfod os mae mantais i ddulliau therapi chwarae ar yr adferiad plant sy wedi dioddef camdriniaeth, ac os mae'n cynorthwyo'r plant i fynegi eu hunan trwy ddulliau gwahanol. Yn ychwanegol i hwn, fydd yr ymchwilydd yn archwilio'r cyfyngiadau, heriau a goblygiadau o ddefnyddio chwarae therapi fel dull i gefnogi'r plant yma.

Fydd yr ymchwiliwr yn defnyddio dulliau ymchwil ffenomenologol o cyfweiliadau gyda'r therapyddion chwarae a gofalwyr plant, ac astudiaethau achos, gan archwilio data ac ystadegau o sefydliadau elusennol, cymdeithasau ac awdurdodau perthnasol. I gyd-fynd â hyn, fydd yr ymchwiliwr yn defnyddio dull cyfranogol o arsylwadau o'r sesiynau therapi, gyda chaniatâd sefydlu gan y gofalwr, therapydd ar blentyn.

Yn olaf, fydd yr ymchwiliwr yn dienyddio'r dull triongli i ddatblygu dealltwriaeth helaeth, ac i sicrhau'r hygredd a dibynadwyedd o'r data cyfunol.

I barchu a sicrhau ystyriaethau moesegol drwyddi draw bob adeg o'r ymchwil, fydd yr ymchwiliwr yn dilyn canllawiau osod gan Social Research Association (2021), National Society for the Prevention of Cruelty to Children (2023), ar British Educational Research Association (2018). Ar y cyd â'r canllawiau hyn, fydd ymchwil gwybodus yn cael ei gymhwyso, yn unol â'r canllawiau Fraser a chymhwysedd Gillik (NSPCC, 2022) i sefydlu os mae'r plentyn yn ddigon aeddfed i wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Fydd caniatâd ysgrifenedig yn cael ei gasglwyd gan gyfranogwyr, ac yn y nod o arfer dda, fydd caniatâd gofalwyr yn cael ei sicrhau (Social Research Association (2021)).

Adolygiad Llenyddiaeth

Y rhesymeg tŷ ôl i'r prosiect ymchwil hwn, yw ystyried yr effaith mae chwarae therapi yn cael ar yr adferiad o blant sy'n ddioddefwyr o gamdriniaeth.

Yn ôl Statista (2022), yn y blynyddoedd 2021/2022, roedd cynnydd o bum mil o blant oedd yn cael eu cam-drin yng Nghymru a Lloegr. Chefnogodd y National Society for the Prevention of Cruelty to Children (2023a) yr ystadegau hyn, gan nodi yn yr un blynyddoedd, cysylltwyd ag asiantaethau am tua 22,505 blant dros bryderon o gamdriniaeth.

Yn ôl Normandin *et al.* (2023), mae chwarae therapi yn cynhyrchu plant gyda'r adnoddau i fynegi eu teimladau a meddyliau pan fyddant yn cael anawsterau mynegi eu hunan, neu os nad oes ganddynt y sgiliau gwybyddol neu lafar i gyfathrebu eu hemosiynau. Fodd bynnag, dadleu Larson (2012) bod plant gallu dangos pryder wrth rannu gwybodaeth gyda'r therapydd, oherwydd diffyg ymddiried ac ymwybyddiaeth o gyfrinachedd. Er bod Larson yn darparu dadl gref, awgryma Stulmalker *et al.* (2015) bod y pwysigrwydd o ddealltwriaeth empathetig yn hanfodol i ddatblygu perthynas therapiwtig rhwng y plentyn ar therapydd, ac fel canlyniad, gall perthynas ymddiriedus datblygu. Cefnogir y farn hon gan yr elusen Play Therapy UK (2023). Maent yn argyhoeddedig wrth ddatblygu perthynas therapiwtig, fydd y plentyn ddim yn teimlo'n unol efo'i emosiynau, felly fydd y plentyn gallu teimlo'n ddiogel a dealliedig i fynegi ei emosiynau a theimladau cryf a ddwfn.

Mewn astudiaeth a bennir gan Wheeler a Dillman Taylor (2016), maent yn gynnig fod profiadau therapi chwarae cadarnhaol yn datblygu niwroplastigedd. Awgryma trwy gymryd rhan mewn profiadau ailadroddus, mae'n arwain at newid rhwydi niwral y plentyn, i greu ymddygiadau, teimladau a phrofiadau newydd sy'n cysylltu at atgofion a phrofiadau blaenorol (Siegel & Bryson, 2012). Mae'r diffiniad hyn yn debyg i farnau Baylin a Hughes (2016). Awgrymodd wrth i therapyddion ymateb i ochelgarwch y claf efo dealltwriaeth ag empathi, mae'r ymennydd yn annog canfod rhywbeth gwahanol, sy'n gallu dominyddi'r niwronau sy'n gyrru dysgu seiliedig ar drallod.

Fodd bynnag, noda Evans a Cocomma (2014) yr heriau o'r newidiai niwrolegol hyn. Creda gan fod plant yn dioddef y mwyafrif o newidiadau strwythur yn yr ymennydd fel canlyniad o drawma, oherwydd gorfwygiad y cylchredau ofn, mae hwn gallu achosi mwy o heriau mewn strategaethau ymyriad ac adferiad.

Y dystiolaeth a gyflwynwyd gan Cortigă a Stulz-Koller (2021) yn eu hastudiaeth ar y rôl o therapi chwarae ar driniaeth trawma, oedd bod dulliau therapyddion creadigol yn ysgogi'r allanoli o feddyliadau trawmatig, gan gefnogi'r prosesu synhwyrdd o atgofion dirdynnol dan amodau diogel, a helpu cleifion i ymgodymu ag emosiynau trallodus. Mae'r canlyniadau hyn yn debyg i'r damcaniaethau Piaget (1969) a Bruner (1972). Roedd Piaget yn argyhoeddedig bod plant yn defnyddio symbolau i fynegi emosiynau a theimladau trwy chwarae, a chreda Bruner bod plant yn defnyddio chwarae i sianelu eu hemosiynau a gwneud synnwyr o'r byd o'i gwmpas. Mewn gyferbyniad, dadleua Crenshaw (2008) yn achlysurol, bod plant sy wedi dioddef o gamdriniaeth gallu colli'r abled i chwarae, oherwydd bod chwarae gallu fod yn diarfogi. Fel canlyniad, creda bod y teimladau o ryddhau gallu bod yn rhy heriol i'r plentyn. Eglurodd Cooper (2000) y pwynt yma ymhellach, gan nodi bod plant sy wedi cael eu cam-drin yn fwy tebygol i ddioddef o chwilfrydedd gwanhau a diffyg diddordeb mewn chwarae, fel deilliant o'r trawma maent wedi eu profi.

Honnodd Brown (2014) yn ei astudiaeth ar gamdriniaeth plant gronig, bod chwarae therapi yn fanteisiol i blant sy wedi dioddef camdriniaeth oherwydd i'r mwyafrif o blant, yr unig adeg maent mewn rheolaeth yw yn ystod chwarae. Gellid tystio'r farn hon gyda'r damcaniaeth Freud (1908). Creda Freud yn ystod chwarae, bod plant yn aildrefnu a chreu byd sy'n foddhaol iddynt (Lenormand, 2019).

Yn ychwanegol, mewn erthygl papur newydd *The Irish Times* (2023), adroddasant fod awdurdodau yn alw i chwarae therapi gael ei bryf ffrydio ar draws ysgolion, oherwydd y manteision i ddatblygu perthnasau cefnogol, mynegi teimladau, ar gyfleoedd i ddatblygu sgiliau emosiynol a chymdeithasol. Er gwaethaf hyn, mewn adroddiad gan Mind (2013), nodwyd fod hygyrchedd gallu fod yn her i gleifion caffael therapi, gydag un mewn deg o bobol yn aros dros flwyddyn am therapi.

Yn olaf, mae'n bwysig ystyried yr erthyglau yn y *Crynodeb o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig a'r Hawliau'r Plentyn* (Llywodraeth Cymru, 2021), yn yr erthyglau canlynol:

Erthygl 6: Mae gan bob plentyn hawl i fyw. Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn goroesi a datblygu'n iach.

Erthygl 12: Mae gan plant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai digwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arny'n nhw, ac i'w barn cael ei hystyried.

Erthygl 19: Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn gael y gofal priodol, a'u cadw rhag trais, camdriniaeth a esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n edrych ar eu hôl.

Erthygl 31: Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn ystod eang o weithgareddau.

Erthygl 34: Dylai'r llywodraeth gadw plant rhag camdriniaeth rywiol.

Erthygl 39: Dylai plant sydd wedi cael eu hesgeuluso neu eu cam-drin gael help arbennig i adfer eu hunan barch.

Ystyriaethau Methodolegol

Bydd yr astudiaeth bresennol yn defnyddio dull cymysg i gasglu data i'w ddadansoddi. Wrth ddienyddio dulliau ansoddol a meintiol, credir Bell a Waters (2018), fydd yr ymchwiliwr yn cyrraedd dealltwriaeth helaeth o'r ymholiad ymchwil, ac yn ychwanegol, yn lleihau'r breuder o ddefnyddio un dull ymchwil. Yn yr un modd, dywed Baran a Jones (2016) gan fabwysiadu dull cymysg, fydd y dulliau gallu cefnogi technegau ymchwil niferus i ysbrydoli ymchwiliwyr i ddefnyddio dull amgen tuag at fethodoleg.

Gan ddefnyddio dull cymysg, fydd yr ymchwiliwr yn ffocysu ar triongli. Diffiniodd Punch a Oancea (2014) triongli fel y defnyddiad o ddulliau neu ddata amrywiol i astudio pwnc. Noda Bell a Waters (2018) y manteision o triongli. Creda gan ddefnyddio persbectifau amrywiol, fydd yr ymchwiliwr gallu dilysu, neu anghydfod y data a gasglwyd o un dull efo'r lleill. Mae'r diffiniad hyn yn debyg i'r un a adroddwyd gan Roberts- Holmes (2018). Cytunodd bod y ffafriaeth o triongli yn cynyddu dilysrwydd y dystiolaeth, a hefyd rhoi hyder yn y sicrwydd o'r data casglwyd. Fodd bynnag, mae rhai ymchwiliwyr efo farnai pryder dros ddefnyddio triongli. Mynegodd Sim a Sharpe (1998) eu pryderon am yr anghyson o baradeimau ymchwil, a dadleua Richardson a St Pierre (2008) bod y cefnogwyr o triongli yn awgrymu bod yna gwrthrych sy allu gael ei triongli, sy ddim yn cyd-fynd gyda realiti (Haydn, 2019).

Gan ystyried y dystiolaeth uchod, gellid un damcaniaethu fod dadl gref tuag at y manteision o ddefnyddio triongli, ac fel canlyniad, fydd yr ymchwiliwr yn defnyddio hyn yn yr ymchwiliad i sicrhau cywirdeb a dibynadwyedd rhwng y dulliau dewisedig. Awgryma Bell a Waters (2018) bod angen ystyried y dull samplu yn ofalus, a bod angen i'r dull fod yn rhesymol ac yn ddyblyg. Fydd yr ymchwiliwr yn defnyddio'r dull samplu pwrpasol mewn perthynas ar brosiect ymchwil hwn. Diffiniodd Chittaranian (2021) samplu pwrpasol, fel sampl efo'r priodoleddau sy'n gydnaws efo'r pwrpas yr ymchwil. I ddewis y samplau, fydd yr ymchwiliwr yn nodi ymgeiswyr addas i gyfranogi yn yr ymchwil, gan ddilyn canllawiau moesegol. Awgryma Robinson (2014), bod y rhesymeg o ddewis samplu pwrpasol, yw ddefnyddio pobol benodol i feddu syniadau a farnai gwahanol ar y cwestiwn ymchwil. Cytunodd Chittaranjan (2021) efo'r farn Robinson, gan ddatgan trwy samplu pwrpasol, mae'r ymchwiliwr yn dewis poblogaeth benodol sy'n cysylltu efo'r pwnc ymchwil, neu maent yn gallu dileu pynciau sydd o risg o effeithiau niweidiol. Fodd bynnag, dadleua Nik Ahmad a Hossain (2019) bod y

cyfyngiad o ddefnyddio dull samplu hyn, yw bod y canlyniadau o'r data casglwyd gallu fod yn llai cyffredinol.

Fydd maint y sampl yn cael ei goramcangyfrif, i sicrhau bydd yr adnoddau a chyllid ar gael i gasglu data gofynnol (Morse, 2000). Cytunodd Gill (2011) gyda'r safbwynt Morse, gan ddatgan er bod y mwyaf y sampl, y mwyaf tebygolwydd fydd rhagfarn, mae angen cydbwysid o faint sampl ac adnoddau yr ymchwiler. Yn ychwanegol, creda Taherdoost (2016) bod angen ystyried maint sampl ar y triniaeth ystadegol fydd yn gael ei defnyddio yn y casgliad o data.

Fydd y data a gasglwyd yn ddienw, i amddiffyn cyfrinachedd ac i sicrhau diogelwch y therapydd, plentyn a'i gofawyr. Fydd yr ymchwiler yn sicrhau cynwysoldeb, a hefyd fydd yr ymchwiler yn addasu'r casgliad o ddata, i leihau unrhyw gyni neu deimlad o bregusrwydd gan ddilyn y canllawiau gasglu data National Society for the Protection of Cruelty to Children (2023).

Gan ystyried y natur o'r pwnc ymchwil, fydd yr ymchwiler yn defnyddio'r dull samplu pwrpasol i casglu data penodol a nodedig i sicrhau cywirdeb a dibynadwyedd y data casglwyd. Yn ychwanegol, gan ystyried y natur sensitif o'r ymchwil, mae'n bwysig i fyfyrion ystyriaethau moesegol a'r effaith y gallai hyn ei chael ar y pynciau sydd wedi cytuno i fod yn rhan o'r astudiaeth ymchwil.

Fydd yr ymchwiler yn defnyddio'r dull o gyfweiliadau lled-strwythuredig i gasglu data ansoddol gofynnol o therapyddion chwarae a gofawyr plant. Gan ddefnyddio'r dull hyn, fydd yr ymchwilydd ar gyfweilai gallu caffael mwy o ryddid i gyfathrebu a deialog a rennir rhyngddynt, ac yn ychwanegol, gallai'r cyfwelydd ailymweld sylwadau arwyddocaol (Lambert, 2019). Cytunodd Silverman (2017) y fantais o defnyddio'r dull hyn, gan nodi'r cyfle i'r ymchwiler gofyn cwestiynau strwythuredig, a hefyd trafod pwyntiau ychwanegol neu eglurder pwynt wybodaeth. Cydsyniodd Galletta (2012) efo'r farn Silverman, gan ddatgan trwy ddefnyddio'r dull hyn, fydd datblygiad o gysylltiad â chydfuddiannol rhwng yr ymchwilydd a chyfwelai oherwydd y galluogi i fyfyrion'r drafodaeth ar ei hymatebion. Serch hynny, rhybuddia Gibbs *et al.* (2007) er bod angen i'r ymchwiler gasglu data i gronni dealltwriaeth ar y pwnc ymchwil, maent yn foesegol amheus i casglu data sy ddim yn ofynnol i'r ymchwil. Fodd bynnag dadleua Crindland *et al.* (2015), wrth ddefnyddio'r dull hyn, mae'n gyraeddadwy i ganolbwyntio ar faterion pwysig i'r cyfwelai. Gan wneud hyn, chreda bydd cyfleoedd i bryderon nodedig gael ei fynegi gan y cyfwelai.

Mae yna nifer o gyfyngiadau i'r dull hwn sy'n bwysig ystyried er mwyn deall dibynadwyedd y dull. Dadleua Atkins a Wallace (2012), fod trawsgrifio neu gymryd nodiadau o'r cyfweiliad gallu bod yn dasg hirfain, maent yn dasg orchmynnol i echdynnu data angenrheidiol. Ar ben hynny, dywed wrth lunio damcaniaethau ar beth ranna'r cyfwelai, mae hwn gallu fod lawr i ddehongliad yr ymchwiliir. Mae'r farn hyn yn debyg i'r ffenomenon effaith halo (Thorndike, 1920). Diffiniad o'r effaith hyn, yw "gall gwerthusiadau byd-eang o berson arwain at werthusiadau newidiol o briodolddau'r person" (Nesbett a Wilson 1977 t. 250). Ymhellach, noda Frey (1986) a Klapper (1960) bod unigolion yn gwyro tuag at rannu gwybodaeth yn gyson â'u credoau, a datgodio a chadw gwybodaeth sy mwy cyson â'u gogwydd. Mae'r weithred o fod yn diduedd yn hollbwysig i'r casgliad o ddata. Awgryma Clair (2015), fod diduedd yn ffynhonnell a nodwyd o drefn deg mewn systemau goruchaf, oherwydd maent yn sicrhau bod dewisiadau yn anwahaniaethol a niwtral. Mae'n bwysig i ystyried yr effaith halo yn ystod arsylwadau, ac yn ychwanegol, yr effaith Hawthorne. Dywed McCambridge, Witton ac Elbourne (2014), bod yr effaith Hawthorne yn derm cydnabyddol a derbyniol mewn astudiaethau ymchwil sy'n ffocysu ar gyfranogiad, ar ddamcaniaeth bod yr ymwybyddiaeth o fod yn astudio gallu effeithio ar ymddygiad (Chiesa a Hobbs, 2008). Fodd bynnag, darganfod McCambridge, Witton ac Elbourne (2014) yn eu hastudiaeth ar y ffenomenon hyn, bod effeithiau lluosog i'r effaith Hawthorne, ac roedd dystiolaeth brin ar feintiau, dulliau ac amgylchiadau o'r ymarweddiadau.

Er gwaethaf hynny, fydd yr ymchwiliir yn defnyddio'r dull o arsylwi yn ystod sesiynau therapi chwarae i gasglu data ansoddol a meintiol. Dywed Bell a Waters (2018), gan ddefnyddio'r dull hyn, maent yn fanteisiol i bennu gweithredai ac ymddygiadau mewn ymchwil. Cytunodd Lambert (2019) gyda'r farn hwn, gan ddatgan fod arsylwadau yn darparu mewnwelediad mewn i beth sy'n digwydd mewn bywyd go iawn o'r person a arsylwyd.

Fodd bynnag, mynnodd Coolican (2014) yr anfantais o ddefnyddio arsylwi, gan ddatgan bod angen i arsylwyr hyfforddi sut i gofnodi ymddygiadau heb wneud unrhyw ragdybiaethau. Cytunodd Ratner (2002) a Kawulich (2012) efo'r farn Coolican, gan nodi fod angen i'r arsylwyr bod yn ymwybodol o'i rhagfarnau personol, i alluogi bydd y data casgliad yn gael ei dadansoddi mewn ffordd diduedd.

Fydd yr ymchwiliir yn bod yn ymwybodol o'r heriau o ddefnyddio'r dull hyn, ond gan fod y manteision yn gryf, a fydd yn casglu data ansoddol gwahanol i'r cyfweiliad, fydd

y dull yma yn cael ei ddefnyddio i gasglu mwy o ddata profiad uniongyrchol perthnasol.

Yn olaf, fydd yr ymchwiler yn defnyddio astudiaethau achos blaenorol i gasglu a dadansoddi data meintiol. Mynegwyd enghraifft nodedig o'r manteision o ddefnyddio astudiaethau achos gan Punch (2011). Farn Punch, oedd gan ddefnyddio'r dull yma, mae ffocws cyfannol, gyda bwriad i amddiffyn a datblygu dealltwriaeth o'r cyfanrwydd yr astudiaeth. Cytunodd (Wyse *et al.*, 2017) efo'r farn hyn, gan nodi'r natur gyfannol o astudiaethau achos, mae ffocws ar wybodaeth gynhwysfawr, gywrain a detholus. Datganodd Dunning *et al.* (2008), wrth ddefnyddio astudiaethau achos, maent yn adiwn i triogli a dull cymysg i gasglu data dibynadwy.

Beirniadaeth gyffredin o ddefnyddio'r dull yma, yw'r mater o gyffredinoli (Punch, 2011). Mae Thomas (2011), yn gynnig fod cyffredinoli yn her ynghanol gwyddorau cymdeithasol, tra bod Diefenbach (2009) yn datgan bod lawer o astudiaethau achos nai llai ddim yn mynd mewn i ddigon o fanylion o rhai safbwyntiau, neu maent yn gynnig cyffredinoli sy' ddim yn ddibynadwy ar sail fethodolegol.

Fodd bynnag, creda Freebody (2004), bod lawer o ddata yn creu astudiaeth achos. Maent yn datgan bod arsylwadau, cyfweiliadau, nodiadau a dogfennau gallu cael eu cynnwys, a nodwedd amlwg o'r ffocws ar y nod i fyfyrir o'r naratif o amlygiad, lle proffesiynol a cysyniadol, a'r ôl-ffeithiau o weithredai pobol i ddysgu, ac i'r ymarweddiad parhaus o'r prosiect ymchwil.

Gan ystyried y barnai ar y dull hwn, fydd yr ymchwiler yn defnyddio astudiaethau achos, oherwydd fydd y data a gasglwyd yn darparu tystiolaeth a data gwahanol i'r dulliau arall, fel data ansoddol a meintiol gan ddarganfod ystadegau o blant sy' wedi llwyddo o gyrchu therapi chwarae, a hefyd ystadegau o blant sy' wedi darganfod fod therapïau amgen wedi bod mwy o fydd iddynt.

Ystyriaethau Moesegol

Pwysleisia'r World Health Organization (2023) y pwysigrwydd o ddilyn ystyriaethau moesegol yn ystod ymchwil, gan ddatgan y rheswm yw amddiffyn yr hawliau, lles ac urddas o'r cyfranogwyr.

A nodi'r yn y canllawiau moesegol o'r British Educational Research Association (BERA, 2018), o ran unrhyw ymchwil sy'n gynnwys plant, dylai'r ymchwilwyr casglu cydseiniad o'r plentyn i gymryd rhan yn yr ymchwil. Mae hwn yn cael ei chefnogi yn erthyglau 12 a 13 o'r *Crynodeb o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn* (Llywodraeth Cymru, 2021):

Erthygl 12: Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael eu hystyried.

Erthygl 13: Mae gan blant yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth ar yr amod nad yw'r wybodaeth yn niweidiol iddyn nhw ac i eraill.

I sicrhau ystyriaeth o'r hanfodol lles pennaf y plentyn, mae rhaid i ymchwil gael eu cofleidio â fframweithiau moesegol diffiniedig (Lambert a Glacken, 2011). Gan ystyried hyn, fydd yr ymchwilwyr yn darparu taflenni gwybodaeth ac arweiniad llafar am ganiatâd gwybodus a chydseiniad gyda'r cyfranogwyr ymchwil.

Yn ychwanegol, yn y ddogfen BERA, nodwyd yn y digwyddiad bod cyfranogwyr mewn amgylchiadau bregus, dylai'r ymchwilwyr darganfod dull lle fyddant allu gael eu cefnogi i gyfranogi efo cydsyniad. Yn yr un modd, maent yn cynghori i'r ymchwilwyr ystyried y rhain sydd yn cael cyfrifoldeb cyfreithiol i'r plentyn, a gallai'r ymchwilwyr cael caniatâd o'r rhiant/gofalwyr.

Mewn astudiaeth gan Carroll-Lind *et al.* (2006), dywed fod un o'r heriau problemus gan geisio caniatâd rhieni neu warcheidwad o blant sy' wedi bod yn ddioddefwyr o gamdriniaeth, yw'r posibilrwydd o wrthod caniatâd i'r plentyn, i sensro problemau yn y teulu. Creda wrth wneud hyn, fydd hwn gallu atal y plentyn i fynegi ei theimladau a meddyliau. Fodd bynnag, dadleua Goddard a Mudaly (2009), gan ymchwilio'r natur fregus o gamdriniaeth plant, i'r ymchwilwyr ystyried cwestiynau moesegol sy' gallu cael eu hosgoi gan ddefnyddio dulliau ymchwil anuniongyrchol. Yn ychwanegol, noda Ethical Research Involving Children (ERIC, 2019), bod unrhyw ymchwil sy'n

cynnwys plant gallu achosi trallod, a bod angen i ymchwilwyr paratoi ac integreiddio strategaethau diffiniol i sicrhau gofal ac amddiffyn.

Wrth ystyried hyn, fydd yr ymchwilwyr yn addasu'r casgliad methodolegol gan ddarparu amgylchedd cyfforddus a gyfeillgar, cymryd seibiannau, ac osgoi rhannau'r dydd pryd nad oes gwasanaethau cefnogol ar gael (National Society for the Protection of Cruelty to Children, 2023). At hyn, fydd yr ymchwilwyr yn darparu rhestr o wasanaethau cefnogol i hwyluso'r plentyn a'i gofalwyr/rhiant. Os nad oes gwasanaethau cefnogol ar gael, fydd yr ymchwilwyr yn ail-ystyried yr ymchwil (Ethical Research Involving Children, 2019).

Ar ben hynny, mae ystyriaeth am yr effeithiau o'r ymchwil hyn ar blant wedi cael eu hystyried yn ofalus, ac fel canlyniad, fydd y dulliau casglu data ddim yn cynnwys cwestiynu plant am eu profiadau trawmatig, i sicrhau ni ddaw unrhyw niwed iddynt. Fydd yr ymchwilwyr yn ystyried lles y plant fel blaenoriaeth, ac yn ychwanegol, eu diogelwch ac amddiffyn gan fod yn ymwybodol o unrhyw bosibilrwydd o ail-trawma ag unrhyw ymwithiol diangen i amddiffyn lles cyfannol y plentyn (Centre of Expertise on Child Abuse, 2017). Ymhellach, fydd yr ymchwilwyr yn sicrhau cefnogaeth ddilynol i'r plant, a hefyd gweithio mewn partneriaeth gyda gwasanaethau amddiffyn plant lleol i sicrhau dull digyfaddawd (Ethical Research Involving Children, 2019). Gan fod yn ymwybodol o'r ystyriaethau moesegol hyn, fydd yr ymchwilwyr yn darparu strategaethau cymorth i leihau'r risg o niwed i'r plentyn sy' wedi rhoi caniatâd i gyfranogiad, ac i helpu cefnogi eu lles emosiynol. Fydd y strategaethau cymorth yn gynnwys gwasanaethau cwnsela, chefnogaeth o'r rhiant/gofalwyr di-drosedd (Goddard a Mudaly, 2009), ac i'r ddealltwriaeth o'i hawl i ymneilltuo ar unrhyw adeg (BERA, 2018 t.18).

Chefnoga hyn gan y British Association of Play Therapists (2016, t.14). O ran ymchwil, mae therapyddion chwarae yn sicrhau nad fod cleientiaid yn cael eu gorfodi i gymryd rhan, ac yn ychwanegol, yn amddiffyn cyfranogwyr o ganlyniadau andwyol o dynnu caniatâd yn ôl.

Fel rheol, mae onestrwydd, didwylledd, a pharchu hunanreolaeth o'r cyfranogwyr yw'r rhwymedigaeth yr ymchwilwyr (Kapiszewski a Wood, 2022). Mae canfyddiadau'r erthygl hon yn gyson efo'r arweiniad mewn papur gan BMC Medicine (2022). Yn y papur hwn, maent yn dangos pwysigrwydd o dryloywder ac uniondeb yn ystod ymchwil, gan nodi ymlyniaeth i fframweithiau moesegol cyfreithiol, onestrwydd,

diwydrwydd ac atebolrwydd o'r ymchwilwyr i danategu ymddiriedaeth a hyder yn nulliau a chanfyddiadau'r ymchwil.

Yn y canllawiau gan ERIC (2019), maent yn cadarnhau i barchu cyfrinachedd a phreifatrwydd plant ac eraill yn ystod y proses casglu data, mae angen i'r ymchwilwyr bod yn ymwybodol o ganfyddiad, gofal ac ystyriaeth. Cyhoedda yn y canllawiau hyn, bod preifatrwydd yn meddwl bod rhaid i unrhyw wybodaeth gyfrinachol gael ei pharchu a diogelu, a dylai'r plentyn cael y dulliau ac amgylchedd i rannu unrhyw wybodaeth heb unrhyw ymyrraeth neu rwystrau. Ategir hyn gan yr *Crynodeb o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig* (Llywodraeth Cymru, 2021) yn erthygl 16.

Erthgyl 16: Mae gan blant yr hawl i breifatrwydd. Dylai'r gyfraith eu cadw rhag ymosodiadau ar eu ffordd o fyw, eu henw da, eu teuluoedd a'u chartrefi.

Dyletswydd hon yw'r ymchwilwyr, ag unrhyw proffesiynol arall sy'n cymryd rhan yn yr ymchwiliad. Fodd bynnag, fydd yr ymchwilwyr yn sicrhau bydd y cyfranogwr yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'r ffiniau o gyfrinachedd a ategir gan bolisiâu a gweithdrefnau diogelu, pe cyfyd yr amgylchiad yn codi bod datgeliad yn cael ei wneud gan y plentyn (Centre of Expertise on Child Sexual Abuse, 2017).

O dan y Deddf Diogelu Data 2018 (GOV.UK, dim dyddiad), data personol yn cael ei ddiffinio fel gwybodaeth sydd yn cysylltu efo person byw adnabyddadwy, sy'n ychwanegu gyda data arall fydd yn adnabod yr unigolyn.

Ymhellach, noda fod dim gofyniad isafswm oedran, ac fel canlyniad, gall plant cyflawni eu hawliau dan yr amod eu bod yn alluog o'r ddealltwriaeth hanfod o'r hawliau hyn. Yn y digwyddiad bod y cyfranogwr eisiau tynnu'n ôl o'r ymchwil ar unrhyw adeg, fydd y data a gasglwyd ddim yn gallu cael eu defnyddio rhagor, heb law am y wybodaeth sy' wedi cael ei gyhoeddi yn barod.

Mae'r UK Data Service (2023) yn awgrymu i ymchwilwyr creu ffeiliau wrthgefn i sicrhau bod ffeiliau data gwreiddiol gallu bod yn adferedig, ac i amgryptio ffeiliau i sicrhau cyfrinachedd, ac i ardystio fod dim ond pobl awdurdodedig gallu gael mynediad i'r ffeil. Mae'r diffiniad hyn hefyd yn cael ei nodwyd yn y Ddeddf Diogelu Data 2018 (GOV.UK, dim dyddiad), trwy gynghori dylid data personol dim ond bod yn hygyrch i bersonau awdurdodedig.

Wrth i'r ymchwilyr casglu data trwy gymryd nodiadau a recordio ar ddictaffon, fydd yr anhysbysrwydd ac amddiffyniad o'r data a gasglwyd yn dilyn y canllawiau uchod, gan achub ac amgryptio unrhyw wybodaeth ar ffeil USB, a fydd anhysbysrwydd yn cael ei sicrhau. Fydd yr ymchwilyr yn gwneud hyn gan ddilyn canllawiau General Data Protection Regulation 2018 (European Commission, dim dyddiad). Dywed yn y canllawiau hyn fod gan blant yr un hawliau ag oedolion dros eu data personol, ac yn derbyn yr hawl i gael eu data dinistrio, a hefyd, i amddiffyn hunaniaeth y plentyn, fydd yr ymchwilyr yn sicrhau bod unrhyw nodweddion gwahaniaethol yn cael eu golygwyd gyda ffugenwau, data-clywedol a disgrifiadau generig (UK Data Service, 2023a).

Adroddir yn eang trwy ystyriaethau moesegol y pwysigrwydd o adnabod risgiau i bawb sy'n ymwneud ar ymchwil. Nodwyd yn y canllawiau British Educational Research Association (2018), cyfrifoldeb yr ymchwilyr yw gwneud y cyfranogwyr ymwybodol o unrhyw anfantais neu niwed posibl yn ystod y prosiect ymchwil. Dywed yn y canllawiau Save the Children (2004), cyfrifoldeb fel ymchwilyr yw i amddiffyn lles y plant a staff sydd yn gynwysedig yn yr ymchwil, ac wrth ystyried hyn, fydd yr ymchwilyr yn cyflogi ail berson i oruchwylio'r lles a diogelwch y plentyn ar ymchwilyr. Yn ychwanegol, o ran natur drallodus yr ymchwil hyn, fydd yr ymchwilyr yn darparu cymorth cwnsela cyfrinachol, a rhestr o wasanaethau cymorth perthnasol i osgoi niwed lles i'r aelod o staff (Save the Children, 2004). Yn yr canllawiau Ethical Research Involving Children (2019), maent yn cynghori dyled cyfranogiad mewn ymchwil yn gynnwys manteision i'r plant, yn ogystal â ddim achosi niwed. Dywed mewn pob math o ymchwil, dylai'r plant ennill rhywbeth o'i chyfranogiad. Mae mantais gallu bod dysgu'r canfyddiadau o'r ymchwil, neu'r cyfle i gyrchu adnoddau fydd yn eu helpu a'u chefnogi. Ymhellach, gallai'r fantais fod llais y plant yn cael eu llais yn clywed a'u wrando.

Fydd yr ymchwilyr yn defnyddio'r manteision o'r llais y plentyn yn cael ei chlywed, mynegi ei theimladau mewn amgylchedd diogel a cyfrinachol, a chyrchu adnoddau cefnogol. Yn ychwanegol, fydd y manteision o'r ymchwil yn cael ei esbonio i'r plentyn mewn ffordd fyddant yn gallu deall. Ymhellach, fydd y rheswm dros yr ymchwil yn cael ei esbonio i'r plentyn/gofalwyr, oherwydd mae ychydig o astudiaethau wedi'u cynnal ar y pwnc hwn (Humble *et al.*, 2019). Mae datganiad Humble yn cadarnhau bod yna manteision a gofyniad i wneud yr ymchwil hyn, i helpu cefnogi plant yn y dyfodol, ac i gynyddu hygyrchedd gwasanaethau therapyddion chwarae.

O ran cymhellion, ni fyddi'r ymchwilyr defnyddio gorfodaeth neu berswâd, oherwydd y goblygiadau moesegol pwerus. Fydd yr ymchwilyr yn cefnogi'r rhyddid dewis y cyfranogwyr o'r ymchwiliad.

Rhestr Gyfeirio

'A collaborative editorial model supports research integrity' (2022) *BMC medicine*, 20(1), tt. 1–357. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1186/s12916-022-02565-0>

'The Neurobiology of Attachment-Focused Therapy: Enhancing Connection and Trust in the Treatment of Children and Adolescents' (2016) *ProtoView*. Beaverton: Ringgold, Inc.

Aherdoost, H. (2016) Sampling Methods in Research Methodology; How to Choose a Sampling Technique for Research. *International Journal of Advance Research in Management*, 5(2), tt. 18-27.

Atkins, L. and Wallace, S. (2012) *Qualitative research in education*. London: SAGE.

Baran, M. and Jones, J. (2016) *Mixed methods research for improved scientific study*. Edited by M. Baran and J. Jones. Hershey, PA: Information Science Reference.

Bell, J. and Waters, S. (2018) *Doing your research project: a guide for first-time researchers*. 7th edition. London: Open University Press, McGraw-Hill Education.

British Association of Play Therapists (2016) *Ethical Basis for Good Practice*. Ar gael yn: <https://www.bapt.info/wordpress/wp-content/uploads/2014/09/Ethical-Basis-for-Good-Practice-updated-2016-incl-competencies.pdf> (Cyrchwyd 18 Mai 2023)

British Educational Research Association (2018) *BERA Ethical Guidelines for Educational Research (4th ed.)* Ar gael yn: file:///C:/Users/csmil/Downloads/BERA-Ethical-Guidelines-for-Educational-Research_4thEdn_2018.pdf (Cyrchwyd 29 Ebrill 2023)

Bruner, J.S. (1972) The nature and uses of immaturity. *American Psychologist*, 27, tt. 686-708. Ar gael yn: <http://dx.doi.org/10.1037/h0033144>

Campbell, S. et al. (2020) 'Purposive sampling: complex or simple? Research case examples', *Journal of research in nursing*, 25(8), tt. 652–661. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1177/1744987120927206>

Carroll-Lind, J. et al. (2006) 'The key to the gatekeepers: Passive consent and other ethical issues surrounding the rights of children to speak on issues that concern them', *Child abuse & neglect*, 30(9), tt. 979–989. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1016/j.chiabu.2005.11.013>

Casey, D. and Murphy, K. (2009) 'Issues in using methodological triangulation in research: Dymrna Casey and Kathy Murphy explore the advantages and disadvantages of using triangulation', *Nurse researcher*, 16(4), tt. 40–55. Ar gael yn: <https://doi.org/10.7748/nr2009.07.16.4.40.c7160>

Centre of expertise on child sexual abuse (2017) *Framework for Research ethics*. Ar gael yn: <https://www.csacentre.org.uk/documents/framework-for-research-ethics/> (Cyrchwyd 20 Mai 2023)

CLAIR, J.A. (2015) 'Procedural Injustice in the System of Peer Review and Scientific Misconduct', *Academy of Management learning & education*, 14(2), tt. 159–172. Ar gael yn: <https://doi.org/10.5465/amle.2013.0243>

Coolican, H. (2014) *Research methods and statistics in psychology*. Sixth ed. London: Psychology Press. Ar gael yn: <https://doi.org/10.4324/9780203769836>

Cooper, R.J. (2000) 'The impact of child abuse on children's play: a conceptual model', *Occupational therapy international*, 7(4), pp. 259–276. Ar gael yn:

<https://doi.org/10.1002/oti.127>

Cotigă, A.C. and Stulz-Koller, A. (2021) 'Early Traumatic Events & Implications for the Development of Emotional Connection: Two Case Studies Using Trauma Play Therapy with Children', *Journal of prenatal & perinatal psychology & health*, 35(1), pp. 58–76.

Crenshaw, D. (2008) 'Case Studies, The Healing Power of Play: Helping the traumatized child find safety again', *Psychotherapy networker*, 32(5).

Cridland, E.K. et al. (2015) 'Qualitative research with families living with autism spectrum disorder: Recommendations for conducting semistructured interviews', *Journal of intellectual & developmental disability*, 40(1), tt. 78–91. Ar gael yn:

<https://doi.org/10.3109/13668250.2014.964191>

Chiesa, M. and Hobbs, S. (2008) 'Making sense of social research: how useful is the Hawthorne Effect?', *European journal of social psychology*, 38(1), tt. 67–74. Ar gael yn:

<https://doi.org/10.1002/ejsp.401>

Chittaranjan, A. (2021) 'The Inconvenient Truth About Convenience and Purposive Samples', *Indian journal of psychological medicine*, 43. Ar gael yn:

<https://doi.org/10.1177/0253717620977000>

Diefenbach, T. (2009) 'Are case studies more than sophisticated storytelling?: Methodological problems of qualitative empirical research mainly based on semi-structured interviews', *Quality & quantity*, 43(6), tt. 875–894. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1007/s11135-008-9164-0>

Doody, O. and Noonan, M. (2013) 'Preparing and conducting interviews to collect data', *Nurse researcher*, 20(5), tt. 28–32. Ar gael yn:

<https://doi.org/10.7748/nr2013.05.20.5.28.e327>

Dunning, H. et al. (2008) 'A Mixed Method Approach to Quality of Life Research: A Case Study Approach', *Social indicators research*, 85(1), tt. 145–158. Ar gael yn:

<https://doi.org/10.1007/s11205-007-9131-5>

Ethical Research Involving Children (2019) *Harms and Benefits Section*. Ar gael yn:

<https://childethics.com/wp-content/uploads/2022/05/ERIC-Harms-and-Benefits-Section-English.pdf> (Cyrchwyd 19 Mai 2023)

European Commission, (dim dyddiad) *Rules for businesses and organisations*. Ar gael yn:

https://commission.europa.eu/law/law-topic/data-protection/reform/rules-business-and-organisations_en (Cyrchwyd 20 Mai 2023)

Evans, A. and Coccoma, P. (2014) *Trauma-informed care : how neuroscience influences practice*. London : Routledge. Ar gael yn: <https://doi.org/10.4324/9781315815572>

Faldet, A.-C. and Nes, K. (2021) 'Valuing vulnerable children's voices in educational research', *International journal of inclusive education, ahead-of-print*, tt. 1–16. Ar gael yn:

<https://doi.org/10.1080/13603116.2021.1956602>

Fraser Brown (2014) 'The Healing Power of Play: Therapeutic Work with Chronically Neglected and Abused Children', *Children (Basel)*, 1(3), tt. 474–488. Ar gael yn:

<https://doi.org/10.3390/children1030474>

Freebody, P. (2004) *Qualitative Research in education- Interaction and practice*. London: Sage Publications Ltd.

Freud, S. (1908) *Creative Writers and Day-dreaming*. Basic Books Inc: London.

Frey, D. (1986) Recent Research on selective exposure to information. *Advances in Experimental Social Psychology*, 19, tt. 41-80. Ar gael yn: [https://doi.org/10.1016/S0065-2601\(08\)60212-9](https://doi.org/10.1016/S0065-2601(08)60212-9)

Galletta, A. (2012) *Mastering the Semi-Structured Interview and Beyond: From Research Design to Analysis and Publication*. New York: New York University Press.

Gibbs L. *et al.* (2007) What have sampling and data collection got to do with good qualitative research? *Australian and New Zealand Journal of Public Health* 31(6), tt. 540–544. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1111/j.1753-6405.2007.00140.x>

Gill, J. (2011) *Research Methods for Managers*. 4 edn. London: SAGE Publications.

Giulio, G. *et al.* (2021) 'An Analysis of the Generalizability and Stability of the Halo Effect During the COVID-19 Pandemic Outbreak', *Frontiers in psychology*, 12. Ar gael yn: <https://doi.org/10.3389/fpsyg.2021.631871>

Goddard, C. and Mudaly, N. (2009) 'The Ethics of Involving Children Who Have Been Abused in Child Abuse Research', *The International journal of children's rights*, 17(2), tt. 261–281. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1163/157181808X389920>

GOV.UK (dim dyddiad) *Data Protection Act 2018*. Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2018/12/contents/enacted> (Cyrchwyd 20 Mai 2023)

Grant, R.W. (2011) *Strings attached untangling the ethics of incentives*. Course Book. Princeton: Princeton University Press. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1515/9781400839742>

Grech, V. (2018) 'WASP (Write a Scientific Paper): Preparing an abstract', *Early human development*, 125, tt. 51–52. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1016/j.earlhumdev.2018.06.005>

Haydn, T. (2019) 'Triangulation in history education research, and its limitations: A view from the UK', *History Education Research Journal* [Preprint]. Ar gael yn: <https://doi.org/10.18546/HERJ.16.1.04>

Humble, J.J. *et al.* (2019) 'Child-Centered Play Therapy for Youths Who Have Experienced Trauma: a Systematic Literature Review', *Journal of child & adolescent trauma*, 12(3), tt. 365–375. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1007/s40653-018-0235-7>

José Osvaldo De Sordi and Manuel Antonio Meireles (2019) 'Halo Effect in Peer Review: Exploring the Possibility of Bias Associated with the Feeling of Belonging to a Group', *Perspectivas em ciência da informação*, 24(3), tt. 96–132. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1590/1981-5344/3860>

Kapiszewski, D., Wood, E.J. (2022) 'Ethics, Epistemology, and Openness in Research with Human Participants', *Perspectives on politics*, 20(3), tt. 948–964. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1017/S1537592720004703>

Kawulich, B., (2012) Collecting data through observation. *Doing social research: A global context*, 6(12), pp.150-160.

Kim, J. (2017) 'Elaborating the halo effect of SCCT: how and why performance history affects crisis responsibility and organizational reputation', *Journal of public relations research*, 29(6), tt. 277–294. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/1062726X.2017.1405812>

Klapper, J.T. (1960) *The effects of mass communication*. Glencoe, IL: Free Press.

Lambert, M. (2019) *Practical research methods in education : an early researcher's critical guide*. Edited by M. Lambert. Abingdon, Oxon :: Routledge.

Lambert, V. and Glacken, M. (2011) 'Engaging with children in research: Theoretical and practical implications of negotiating informed consent/assent', *Nursing Ethics*, 18(6), tt. 781–801. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1177/0969733011401122>

Landreth, G.L. (2012) *Play therapy : the art of the relationship*. 3rd ed. New York, N.Y: Routledge. Ar gael yn: <https://doi.org/10.4324/9780203835159> (Cyrchwyd 1 Mai 2023)

Lenormand, M. (2019) 'The importance of not being Ernest: An archaeology of child's play in Freud's writings (and some implications for psychoanalytic theory and practice)', *International journal of psychoanalysis*, 100(1), pp. 52–76. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/00207578.2018.1489708>

Llywodraeth Cymru (2021) *Crynodeb o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-11/poster-crynodeb-uncrc.pdf> (Cyrchwyd 7 Mai 2023)

McCambridge, J., Witton, J. and Elbourne, D.R. (2014) 'Systematic review of the Hawthorne effect: New concepts are needed to study research participation effects', *Journal of clinical epidemiology*, 67(3), tt. 267–277. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1016/j.jclinepi.2013.08.015>

Mind (2013) *We still need to talk- A report on Access to talking therapies*. Ar gael yn: https://www.mind.org.uk/media-a/4248/we-still-need-to-talk_report.pdf

Morse, J.M. (2000) 'Determining Sample Size', *Qualitative health research*, 10(1), tt. 3–5. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1177/104973200129118183>

National Society for the Prevention of Cruelty to Children (2022) *Gillick competence and Fraser guidelines*. Ar gael yn: <https://learning.nspcc.org.uk/child-protection-system/gillick-competence-fraser-guidelines> (Cyrchwyd 29fed Ebrill 2023)

National Society for the Prevention of Cruelty to Children (2023) *Research with children: ethics, safety and promoting inclusion*. Ar gael yn: <https://learning.nspcc.org.uk/research-resources/briefings/research-with-children-ethics-safety-promoting-inclusion> (Cyrchwyd 29 Ebrill 2023)

National Society for the Prevention of Cruelty to Children (2023a) *Half a million children suffer abuse in the UK every year*. Ar gael yn: <https://www.nspcc.org.uk/about-us/news-opinion/2022/childhood-day/> (Cyrchwyd 1 Mai 2023)

Nik Ahmad, N.N. and Hossain, D.M. (2019) 'Exploring the meaning of climate change discourses: an impression management exercise?', *Accounting research journal*, 32(2), tt. 113–128. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1108/ARJ-07-2016-0085>

Nisbett, R.E. and Wilson, T.D. (1977) 'The halo effect: Evidence for unconscious alteration of judgments', *Journal of personality and social psychology*, 35(4), tt. 250. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1037/0022-3514.35.4.250>

Normandin, L. *et al.* (2023) 'Play completion predicts fewer child psychological difficulties: A longitudinal study of mentalizing processes'.

Parker, M.M. *et al.* (2021) 'Exploring child-centered play therapy and trauma: A systematic review of literature', *International journal of play therapy*, 30(1), pp. 2–13. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1037/pla0000136>

Piaget, J. (1969) *The Psychology of the child*. New York: Basic Books.

Play Therapy UK (2023) *How does play therapy work?* Ar gael yn: <https://playtherapy.org.uk/how-does-play-therapy-work/> (Cyrchwyd 1 Mai 2023)

Punch, K. (2011) *Introduction to Research methods in education*. London: Sage Publications Ltd.

Punch, K. and Oancea, A. (2014) *Introduction to research methods in education*. 2nd edition. London ;: SAGE Publications Ltd.

Ratner, C. (2002) 'Subjectivity and Objectivity in Qualitative Methodology', *Forum, qualitative social research*, 3(3).

Richardson, L., St Pierre, E.A. (2008) 'Writing: A method of inquiry'. In Denzin, N.K. and Lincoln, Y.S. (eds) *Collecting and Interpreting Qualitative Materials*. 3rd ed. Thousand Oaks, CA: SAGE Publications.

Roberts-Holmes, G. (2018) *Doing your early years research project: a step by step guide*. London: Sage Publications.

Robinson, O.C. (2014) 'Sampling in Interview-Based Qualitative Research: A Theoretical and Practical Guide', *Qualitative research in psychology*, 11(1), tt. 25–41. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/14780887.2013.801543>

Sanganyado, E. (2019) 'How to write an honest but effective abstract for scientific papers', *Scientific African*, 6. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1016/j.sciaf.2019.e00170>

Save the Children (2004) *So you want to involve children in Research? A toolkit supporting children's meaningful and ethical participation in research relating to violence against children*. Ar gael yn: <https://www.savethechildren.org.uk/content/dam/global/reports/education-and-child-protection/so-you-want-to-involve-children-in-research.pdf> (Cyrchwyd 20 Mai 2023)

Siegel, D.J, Payne Bryson, T. (2012) *The whole brain child: 12 revolutionary strategies to nurture your child's developing mind*. New York: Bantam Books.

Silverman, D. (2017) *Doing qualitative research*. 5th ed. London: Sage.

Sim, J. and Sharp, K. (1998) 'A critical appraisal of the role of triangulation in nursing research', *International journal of nursing studies*, 35(1), tt. 23–31. Ar gael yn: [https://doi.org/10.1016/S0020-7489\(98\)00014-5](https://doi.org/10.1016/S0020-7489(98)00014-5)

Social Research Association (2021) *Research Ethics Guidance*. Ar gael yn: <https://the-sra.org.uk/common/Uploaded%20files/Resources/SRA%20Research%20Ethics%20guidance%202021.pdf> (Cyrchwyd 29 Ebrill 2023)

Statista (2022) *Number of cruelty to children/Young person offences recorded in England and Wales from 2002/03 to 2021/22*. Ar gael yn:

<https://www.statista.com/statistics/303514/child-cruelty-abuse-in-england-and-wales-uk-y-on-y/> (Cyrchwyd 01 Mai 2023)

Stulmaker, H.L., Lertora, I. and Garza, Y. (2015) 'Facilitating Empathic Perspective Taking in Beginning Child-Centered Play Therapists: The Role of Supervision', *International journal of play therapy*, 24(4), tt. 177–189. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1037/a0039330> (Cyrchwyd 1 Mai 2023)

The Irish Times (2023) 'For children affected by trauma, play offers a release: Principals call for increase in levels of play therapy available to school children in disadvantaged areas'.

Thorndike, E. (1920) 'A constant error in psychological ratings', *Journal of applied psychology*, 4(1), tt. 25–29. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1037/h0071663>

UK Data Service (2023) *Research Data Management*. Ar gael yn:

<https://ukdataservice.ac.uk/learning-hub/research-data-management/> (Cyrchwyd 20 Mai 2023)

UK Data Service (2023a) *Anonymising Qualitative Data*. Ar gael yn:

<https://ukdataservice.ac.uk/learning-hub/research-data-management/anonymisation/anonymising-qualitative-data/> (Cyrchwyd 20 Mai 2023)

UK Research and Innovation (2022) *Data Requirements*. Ar gael yn:

<https://www.jisc.ac.uk/guides/data-protection-and-research-data/personal-data> (Cyrchwyd 20 Mai 2023)

Wheeler, N. and Dillman Taylor, D. (2016) 'Integrating Interpersonal Neurobiology With Play Therapy', *International journal of play therapy*, 25(1), tt. 24–34. Ar gael yn:

<https://doi.org/10.1037/pla0000018> (Cyrchwyd 1 Mai 2023)

Winburn, A. *et al.* (2020) 'Play Therapists' Empathy Levels as a Predictor of Self-Perceived Advocacy Competency', *International journal of play therapy*, 29(3), tt. 144–154. Ar gael yn:

<https://doi.org/10.1037/pla0000119> (Cyrchwyd 1 Mai 2023)

World Health Organization (2023) *Ensuring ethical standards and procedures for Research with human beings*. Ar gael yn: <https://www.who.int/activities/ensuring-ethical-standards-and-procedures-for-research-with-human-beings> (Cyrchwyd 17 Mai 2023)

Wyse, D. *et al.* (2017) *The BERA/SAGE handbook of educational research*. Edited by D. Wyse *et al.* London: Sage.